# Hysbysiad Preifatrwydd

**Gwybodaeth gyffredinol**

- Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn yn rhoi gwybodaeth am beth i'w ddisgwyl pan fydd Comisiynydd y Gymraeg ("y Comisiynydd") yn casglu, defnyddio, datgelu, trosglwyddo a chadw eich data personol.
- Comisiynydd y Gymraeg yw'r Rheolwr Data ar gyfer y data y mae'n ei gasglu gennych, oni nodir fel arall.
- I gysylltu â Swyddog Diogelu Data Comisiynydd y Gymraeg, mae croeso i chi gysylltu â ni.
- Mae'r Comisiynydd yn ymrwymedig i ddiogelu gwybodaeth bersonol y mae'n ei derbyn. Pryd bynnag y bydd y Comisiynydd yn derbyn gwybodaeth, mae dan ddyletswydd gyfreithiol i ddefnyddio'r wybodaeth yn unol â'r holl gyfreithiau perthnasol ar ddiogelu gwybodaeth bersonol, gan gynnwys Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU a Deddf Diogelu Data 2018 (cyfeirir at y cyfreithiau hyn gyda'u gilydd yn yr hysbysiad hwn fel "cyfraith diogelu data").

**Sut mae'r Comisiynydd yn cael gwybodaeth**

Mae'r rhan fwyaf o'r wybodaeth bersonol y mae'r Comisiynydd yn ei phrosesu yn cael ei rhoi'n uniongyrchol gennych chi a hynny am un o'r rhesymau canlynol:

- Eich bod wedi gwneud cwyn neu ymholiad i'r Comisiynydd;
- Eich bod wedi gwneud cais am wybodaeth gan y Comisiynydd;
- Eich bod am ddod i ddigwyddiad, neu eich bod wedi dod i ddigwyddiad drefnwyd gan y Comisiynydd;
- Eich bod yn tanysgrifio i'n e-gylchlythyr;
- Eich bod wedi gwneud cais am swydd neu secondiad gyda ni;
- Eich bod yn cynrychioli'ch sefydliad.

Mae'r Comisiynydd hefyd yn derbyn gwybodaeth bersonol yn anuniongyrchol, yn y sefyllfaoedd canlynol:

- Gan sefydliad y mae'r Comisiynydd wedi cysylltu ag ef ynghylch cwyn a wnaethoch a bod y sefydliad yn rhoi'ch gwybodaeth bersonol i ni yn ei ymateb;
- Bod achwynydd yn cyfeirio atoch yn ei ohebiaeth ynglŷn â chŵyn;
- Gwybodaeth bersonol yn cael ei derbyn wrth weithredu swyddogaethau statudol y Comisiynydd;
- Eich bod wedi archebu nwyddau Iaith Gwaith ac wedi cydsynio i'ch gwybodaeth gael ei throsglwyddo i ni;
- Eich bod wedi cipio gwybodaeth bersonol fel rhan o ymchwiliad;
- Oddi wrth awdurdodau cyhoeddus eraill, rheoleiddwyr eraill neu gyrff sy'n gorfodi'r gyfraith;
- Lle rydych chi wedi sicrhau bod eich gwybodaeth cyswllt ar gael ar eich gwefan neu gyhoeddiad ac rydym ym ei defnyddio i gysylltu â chi a'ch sefydliad yn ein rôl fel rheoleiddiwr;
- Bod cyflogai yn rhoi'ch manylion cysylltu fel cyswllt mewn argyfwng neu fel canolwr.

**Eich Hawliau Diogelu Data dan Gyfraith Diogelu Data**

Mae gennych hawliau amrywiol dan Gyfraith Diogelu Data. Mae'r hawliau hynny yn dibynnu ar y rheswm dros brosesu eich gwybodaeth. Gall y rhain gynnwys (fel sy'n berthnasol):

- **Eich hawl i fynediad**: mae gennych yr hawl i ofyn i'r Comisiynydd am gopïau o'ch gwybodaeth bersonol. Mae'r hawl hon yn gymwys bob amser. Mae yna rai eithriadau, sy'n golygu ei bod yn bosibl na fyddwch bob amser yn cael yr holl wybodaeth y mae'n ei brosesu.

- **Eich hawl i gywiriad**: mae gennych yr hawl i ofyn i'r Comisiynydd i gywiro gwybodaeth rydych chi'n credu ei bod yn anghywir. Mae gennych hawl hefyd i ofyn i'r Comisiynydd gwblhau gwybodaeth rydych yn credu ei bod yn anghyflawn. Mae'r hawl hon yn gymwys bob amser.
- **Eich hawl i ddileu gwybodaeth**: mae gennych yr hawl i ofyn i'r Comisiynydd i ddileu'ch gwybodaeth bersonol o dan amgylchiadau penodol.
- **Eich hawl i gyfyngu prosesu**: mae gennych hawl i ofyn i'r Comisiynydd i gyfyngu'r gwaith o brosesu'ch gwybodaeth o dan amgylchiadau penodol.
- **Eich hawl i wrthwynebu prosesu**: mae gennych hawl i wrthwynebu prosesu os yw'r Comisiynydd yn medru prosesu'ch gwybodaeth am fod y broses yn rhan o'i dasg gyhoeddus, neu am fod hynny er budd dilys y Comisiynydd.
- **Eich hawl i drosglwyddiad data**: dim ond i wybodaeth rydych chi wedi'i rhoi i'r Comisiynydd y mae'r hawl hon yn gymwys. Mae gennych hawl i ofyn i'r Comisiynydd drosglwyddo'r wybodaeth rydych wedi ei rhoi o un sefydliad i un arall, neu ei rhoi i chi. Mae'r hawl hon yn gymwys dim ond os yw'r wybodaeth yn cael ei phrosesu ar sail eich cydsyniad chi, neu o dan drafodaethau neu mewn trafodaethau ynghylch gwneud cytundeb a bod y prosesu wedi ei awtomeiddio.

Nid yw'n ofynnol ichi dalu unrhyw ffi am arfer eich hawliau. Mewn rhai amgylchiadau, efallai y bydd y gyfraith yn caniatáu i ni godi ffi. Byddwn yn dweud wrthych os bwriedir codi ffi pan fyddwch yn gwneud eich cais. Os ydych am arfer unrhyw un o'ch hawliau, cysylltwch â Swyddog Diogelu Data Comisiynydd y Gymraeg ar y manylion cyswllt isod.

Mae gan y Comisiynydd un mis i ymateb i chi.

Cysylltwch â ni os dymunwch wneud cais.

**Addasu Gwasanaethau**

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn gorff cyhoeddus ac yn ddarparwr gwasanaethau i'r cyhoedd. Mae'r Comisiynydd o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Mae hyn yn golygu bod angen i'r Comisiynydd wneud addasiadau gwasanaeth i unrhyw un sydd ag anabledd sydd yn cysylltu â ni mewn unrhyw swyddogaeth, a hynny er mwyn dileu unrhyw rwystrau sy'n atal yr unigolyn rhag cyrchu ein gwasanaethau.

Ein sail dros brosesu'r wybodaeth hon yw erthygl 6(1)(c) o'r GDPR gan ein bod o dan rwymedigaeth gyfreithiol i ddarparu hyn. Caiff ein gwaith o brosesu data categori arbennig, megis gwybodaeth am iechyd y byddwch yn ei ddarparu inni, ei seilio ar erthygl 9(2)(a), sy'n golygu bod angen eich cydsyniad arnom wrth brosesu'r wybodaeth yma.

Byddwn yn creu cofnod o'ch anghenion am addasiadau. Bydd y rhain yn rhoi'ch enw, eich manylion cysylltu a'r math o addasiad y mae ei angen, ynghyd â disgrifiad byr o'r rheswm pam y mae ei angen. Gall y staff perthnasol weld hyn er mwyn sicrhau eu bod yn cyfathrebu â chi yn y ffordd angenrheidiol yn unol â'ch dymuniad.

Gan fod angen eich cydsyniad i brosesu'ch data categori arbennig, mae gennych hawl i dynnu'ch cydsyniad yn ôl ar unrhyw adeg.

**Sail Gyfreithiol**

- Y sail gyfreithiol y bydd y Comisiynydd yn prosesu eich gwybodaeth yn unol â hi yw er mwyn caniatáu i'r Comisiynydd ymarfer ei bwerau statudol yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.
- Gall eich cydsyniad hefyd fod yn rheswm cyfreithiol dros brosesu eich data personol. Mae hyn yn golygu eich cydsyniad penodol, gwybodus a diamwys a roddir yn rhydd ac y gellir ei gasglu gennych, er enghraifft, pan fyddwch yn cytuno i dderbyn gohebiaeth farchnata gan y Comisiynydd neu pan gytunwch i gymryd rhan mewn arolygon neu ymchwil y farchnad (fel sy'n berthnasol). Mae gennych hawl dan Gyfraith Diogelu Data i dynnu'n ôl eich cydsyniad lle'i rhoddwyd, ar unrhyw adeg.

**Rhannu eich gwybodaeth**

- Ni fydd y Comisiynydd yn rhannu'ch gwybodaeth personol gydag unrhyw drydydd parti at ddibenion marchnata uniongyrchol.
- Rydym yn defnyddio proseswyr data trydydd parti sy'n darparu elfennau o wasanaethau ar ein rhan. Mae gennym ni gytundebau mewn lle gyda'n proseswyr data. Mae hyn yn golygu nad ydynt yn medru gwneud dim gyda'ch gwybodaeth bersonol oni bai ein bod wedi'u cyfarwyddo i wneud hynny. Ni fydd y cyflenwyr trydydd parti yma yn rhannu'ch gwybodaeth bersonol gydag unrhyw sefydliad heblaw am Comisiynydd y Gymraeg. Bydd y cyflenwyr trydydd parti hefyd yn cadw'r wybodaeth bersonol yn ddiogel ac am gyfnod y bydd y Comisiynydd yn ei cyfarwyddo.
- O dan rai amgylchiadau mae'r Comisiynydd o dan rwymedigaeth cyfreithiol i rannu gwybodaeth, er enghraifft, o dan orchymyn llys neu wrth gydweithredu ag awdurdodau goruchwylio eraill wrth ymdrin â chwynion neu ymchwiliadau. Mewn unrhyw sefyllfa, bydd y Comisiynydd yn bodloni ei hun bod sail gyfreithiol dros rannu'r wybodaeth ac yn cofnodi'r drefn benderfynu a'r sail gyfreithiol dros rannu'r wybodaeth.

**Trosglwyddo i wledydd y tu allan i'r DU a'r AEE**

- Ni fydd eich gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo y tu allan i'r DU.

**Dolenni i wefannau eraill**

Pan fyddwn yn darparu dolenni a chysylltiadau i wefannau sefydliadau eraill, boed ar wefan y Comisiynydd neu ar sianeli cyfryngau cymdeithasol y Comisiynydd, nid yw'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn cynnwys sut mae'r sefydliad hwnnw'n prosesu gwybodaeth bersonol. Rydym yn eich annog i ddarllen hysbysiadau preifatrwydd y gwefannau eraill yr ydych yn ymweld â nhw.

**Gwybodaeth Plant**

- Nid yw'r Comisiynydd yn darparu gwasanaethau'n uniongyrchol i blant nac yn mynd ati'n rhagweithiol i gasglu eu gwybodaeth bersonol. Er hynny, mae gwybodaeth am blant yn cael ei rhoi weithiau pan fydd y Comisiynydd yn

ymdrin â chŵyn neu'n cynnal ymchwiliad, neu'n arfer ei phwerau o dan adrannau 8-10 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae'r wybodaeth yn y rhannau perthnasol o'r hysbysiad hwn yn gymwys i blant yn ogystal ag i oedolion.

**Ymwelwyr â'r wefan**

- Mae gwybodaeth am sut mae'r Comisiynydd yn monitro gweithgarwch ymwelwyr ac yn defnyddio cwcis i'w gweld ar dudalen Cwcis gwefan y Comisiynydd - Polisi Cwcis (comisiynyddygymraeg.cymru)
- Mae'r Comisiynydd yn defnyddio wal tân cymhwysiad gwe trydydd-parti i helpu i gynnal diogelwch a pherfformiad ei wefan. Mae'r gwasanaeth yn gwirio bod traffig i'r wefan yn ymddwyn fel y disgwylid. Bydd y gwasanaeth yn blocio traffig nad yw'n defnyddio'r wefan fel y disgwylid.
- Diben gweithredu'r uchod yw cynnal a monitro perfformiad y wefan a cheisio'n barhaus i wella'r wefan a'r gwasanaethau y mae'n eu cynnig i ddefnyddwyr. Y sail gyfreithiol mae'r Comisiynydd yn dibynnu arni i brosesu'ch data personol yw naill ai Erthygl 6(1)(a) o GDPR y DU, er enghraifft pan fydd yn gofyn am eich cydsyniad i osod cwcis dewisol a ddefnyddir, neu Erthygl 6(1)(f) o GDPR y DU sy'n caniatáu prosesu data personol pan fo hynny'n angenrheidiol er buddiant dilys y Comisiynydd, er enghraifft, er mwyn cynnal integredd ei systemau TG a pharhad ei busnes.
- Gan fod y Comisiynydd yn prosesu'ch data personol er ei buddiant dilys fel y nodwyd uchod, mae gennych hawl i wrthwynebu prosesu'ch data personol. Mae yna resymau dilys y gallai wrthod eich gwrthwynebiad, sy'n dibynnu ar pam y mae'n ei brosesu.

**Eich hawl i gwyno**

- Mae'r Comisiynydd yn gweithio i safonau uchel o ran prosesu'ch gwybodaeth bersonol. Os oes gennych ymholiadau neu bryderon, cysylltwch â hi gan ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod a bydd yn ymateb.

- Mae gennych hawl i wneud cwyn os ydych o'r farn nad ydym wedi defnyddio eich data personol yn unol â'r gyfraith. Byddwn yn cydnabod derbyn y gŵyn o fewn 30 diwrnod a rhoi gwybod i chi am y canlyniad heb oedi diangen. Os nad ydych yn fodlon ar ein hymateb, mae gennych hawl i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.
- Os byddwch yn parhau'n anfodlon, gallwch wneud cwyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth am y modd y mae'r Comisiynydd wedi prosesu'ch gwybodaeth: ico.org.uk

**Rheoli Cysylltiadau**

Gallwn osod cyfyngiad ar eich mynediad i'n gwasanaethau os bydd angen gwneud hynny i ddiogelu'n staff rhag unrhyw ymddygiad annerbyniol, fel sydd yn cael ei ddiffinio yn ein Polisi ar Ymddygiad Annerbyniol.

Y sail gyfreithiol rydym yn dibynnu arno i brosesu'ch data personol yw erthygl 6(1)(e) o'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR), sydd yn caniatáu i'r Comisiynydd brosesu data personol pan fydd angen gwneud hynny er mwyn cyflawni'n tasgau fel rheoleiddiwr fel y nodir yn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Os bydd y Comisiynydd yn cyfyngu ar ddarparu unrhyw wasanaeth i unigolyn, byddwn yn esbonio'r cyfyngiad rydym wedi ei ddefnyddio a pam bod angen cyfyngu ar y gwasanaethau ddarperir. Bydd cofnod o'r cyfyngiad yn cael ei greu at ddibenion gweinyddol, er mwyn sicrhau bod aelodau perthnasol o staff y Comisiynydd yn ymwybodol bod cyfyngiad ar wasanaethau wedi ei osod. Bydd y cofnod yn cynnwys eich enw, manylion cysylltu a disgrifiad pam y gosodwyd cyfyngiad.

Bydd y penderfyniad i osod cyfyngiad yn cael ei wneud a'i adolygu gan gyfarwyddwr strategol y Comisiynydd. Byddwn yn ysgrifennu atoch i esbonio pam bod cyfyngiad wedi ei osod. Byddwn hefyd yn adolygu'r cyfyngiad o dro i dro. Byddwn hefyd yn ystyried codi'r cyfyngiad os oes tystiolaeth bod newid mewn ymddygiad neu os nad ysych yn cyfathrebu â ni mwyach.

**Newidiadau i'r hysbysiad preifatrwydd hwn**

Mae'r Comisiynydd yn adolygu'r hysbysiad preifatrwydd yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn gyfredol ac yn gywir.

**Rhesymau dros gysylltu â'r Comisiynydd**

Mae'r rhan yma o'r hysbysiad preifatrwydd yn rhoi gwybodaeth sy'n benodol i'ch rheswm dros gysylltu â Chomisiynydd y Gymraeg.

**Gwneud cwyn am sefydliad arall**

Y diben yw i ymchwilio a chymryd camau rheoleiddio yn unol â dyletswyddau statudol y Comisiynydd.

Y sail gyfreithiol mae'r Comisiynydd yn dibynnu arni i brosesu'ch data personol yw Erthygl 6(1)(e) o GDPR y DU, sy'n caniatáu iddo brosesu data personol pan fydd angen gwneud hynny i gyflawni ei dasgau cyhoeddus fel rheoleiddiwr.

Os yw'r wybodaeth y byddwch yn ei ddarparu mewn perthynas â'ch cwyn yn cynnwys data categori arbennig, megis gwybodaeth iechyd, grefyddol neu ethnig, y sail bydd y Comisiynydd yn dibynnu arni er mwyn ei phrosesu yw Erthygl 9(2)(g) o GDPR y DU, sydd hefyd yn ymwneud â'i thasg gyhoeddus a diogelu'ch hawliau sylfaenol chi, ac Atodlen 1 rhan 2(6) o DDD 2018 sy'n ymwneud â dibenion statudol a llywodraethol.

Pan fyddwch yn cyflwyno eich cwyn, byddwn yn eich gwahodd i rannu gwybodaeth gyda ni am eich:

- 'nodweddion gwarchodedig' o dan Ddeddf Gydraddoldeb 2010 (e.e oed, anabledd, hil, crefydd neu gred – gan gynnwys diffyg cred, rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, statws priodasol, beichiogrwydd a mamolaeth);
- Statws economaidd gymdeithasol (e.e. eich cyrhaeddiad addysgol, statws gyflogaeth neu ddyletswyddau gofalu); a
- Eich gallu yn y Gymraeg.

Nid oes gofyniad arnoch i ddarparu’r wybodaeth yma i ni, ond mi fydd yn ein cynorthwyo i gyflawni ei rhwymedigaethau cyfreithiol a statudol, yn ogystal â gwella hygyrchedd ein gwasanaeth yn gyffredinol. Dylid nodi na fydd y ffordd y byddwn yn ymdrin â’ch cwyn yn cael ei heffeithio os penderfynwch nad ydych yn dymuno rhannu’r wybodaeth yma gyda ni. Bydd cyfle hefyd i ddewis peidio datgelu’r wybodaeth yma wrth ymateb i bob cwestiwn.

Os ydych yn cyflwyno cwyn i Gomisiynydd y Gymraeg

- Trwy ein gwefan – bydd dewis ar gael os ydych am rannu data cydraddoldeb gyda ni ar y ffurflen gwyno;
- Yn ysgrifenedig dros e-bost neu drwy’r post – byddwn yn eich gwahodd i rannu eich gwybodaeth cydraddoldeb gyda ni naill ai drwy gwblhau ffurflen gydraddoldeb ar-lein neu ffurflen ar bapur, yn ddibynnol ar eich dewis o ddull cyswllt.

Os am rannu’r wybodaeth ar gydraddoldeb â ni trwy ein gwefan, bydd eich ymatebion yn cael eu hychwanegu at eich cofnod achos. Drwy gwblhau’r arolwg cydraddoldeb ar-lein neu drwy gwblhau’r ffurflen gydraddoldeb ar bapur, dylid nodi cyfeirnod eich achos wrth ymateb er mwyn hwyluso’r broses o weinyddu’r wybodaeth yma.

Dim ond staff Swyddfa’r Comisiynydd sydd yn ymdrin â dadansoddi data fydd yn gweld eich ymatebion, ac ni fydd unrhyw swyddog sydd yn asesu neu’n ymchwilio i'ch cwyn yn gweld eich ymatebion ar y cwestiynau ar gydraddoldeb.

Bydd yr ystadegau a’r data a gyflwynir wrth ymateb i'r holiadur cydraddoldeb a dadansoddiad o’r wybodaeth yma yn rhan o Adroddiad Blynyddol y Comisiynydd. Bydd y Comisiynydd yn trin y data yma yn ofalus fel nad oes modd adnabod unigolion o’r data a gyhoeddir gennym.

## Gwybodaeth wrth gyflwyno cwyn

Mae'r Comisiynydd angen gwybodaeth gennych chi er mwyn ymchwilio i’ch cwyn yn iawn.

Pan fydd yn derbyn cwyn gennych chi, bydd ffeil electronig yn cael ei hagor. Bydd hon fel arfer yn cynnwys eich manylion cyswllt ac unrhyw wybodaeth arall rydych wedi'i rhoi am y partïon eraill yn eich cwyn.

Mae angen i'r Comisiynydd wybod manylion eich cwyn fel y gall ymchwilio iddi a chyflawni ei swyddogaeth reoleiddio.

Bydd y Comisiynydd yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol i ymchwilio i'ch cwyn. Mae'r Comisiynydd yn casglu ac yn cyhoeddi ystadegau sy'n dangos gwybodaeth fel nifer y cwynion a dderbyniwyd yn ei adroddiad blynyddol, ond nid ar ffurf sy'n adnabod unrhyw un.

Nid oes gan unrhyw drydydd parti fynediad i'ch gwybodaeth bersonol oni bai bod y gyfraith yn caniatáu iddynt wneud hynny. Fodd bynnag, os ydych wedi gwneud cwyn am sefydliad, bydd y Comisiynydd fel arfer yn datgelu pwy ydych chi wrthynt. Mae hyn er mwyn iddi allu egluro'n glir iddyn nhw beth rydych chi'n meddwl sydd wedi mynd o'i le. Mae hyn hefyd yn golygu y gall y Comisiynydd dderbyn gwybodaeth amdanoch chi ganddyn nhw.

Os nad ydych chi eisiau i'ch gwybodaeth bersonol gael ei rhannu â'r sefydliad rydych yn dymuno cwyno amdano, bydd y Comisiynydd yn ceisio parchu hynny; fodd bynnag gallai hynny effeithio ar allu'r Comisiynydd i gynnal ei swyddogaethau.

Os ydych yn gweithredu ar ran rhywun sy'n gwneud cwyn, fe allai'r Comisiynydd ofyn am wybodaeth i'w bodloni o'ch hunaniaeth ac, os yw'n berthnasol, gofyn am wybodaeth i ddangos bod gennych awdurdod i weithredu ar ran rhywun arall.

Mae gan y Comisiynydd amserlen cadw sy'n nodi pa mor hir y cedwir data personol.

Mae'r Comisiynydd yn gweithredu yn ei chapasiti swyddogol i ymchwilio i'ch cwyn, felly mae gennych hawl i wrthwynebu iddi brosesu eich data personol. Mae yna resymau dilys pam y gall wrthod eich gwrthwynebiad, sy'n dibynnu ar pam ei fod yn ei brosesu.

Nid yw'r Comisiynydd yn defnyddio unrhyw broseswyr data.

**Gwneud cwyn am y Comisiynydd**

Ein diben yw i ymchwilio a chymryd camau yn unol â dyletswyddau statudol y Comisiynydd.

Y sail gyfreithiol y mae'r Comisiynydd yn dibynnu arni i brosesu'ch data personol yw Erthygl 6(1)(e) o GDPR y DU, sy'n caniatáu i'r Comisiynydd brosesu data personol pan fydd angen gwneud hynny i gyflawni tasgau cyhoeddus.

Os yw'r wybodaeth y byddwch yn ei darparu mewn perthynas â'ch cwyn yn cynnwys data categori arbennig, megis gwybodaeth iechyd, grefyddol neu ethnig, y sail bydd y Comisiynydd yn dibynnu arni er mwyn ei phrosesu yw Erthygl 9(2)(g) o GDPR y DU, sydd hefyd yn ymwneud â'i dasg cyhoeddus a diogelu'ch hawliau sylfaenol chi, ac Atodlen 1 rhan 2(6) o Ddeddf Diogelu Data 2018 sy'n ymwneud â dibenion statudol a llywodraethol.

Mae ar y Comisiynydd angen gwybodaeth gennych chi er mwyn ymchwilio i'ch cwyn yn iawn.

Pan fydd yn derbyn cwyn gennych chi, bydd ffeil electronig yn cael ei hagor. Bydd hyn fel arfer yn cynnwys eich manylion cyswllt ac unrhyw wybodaeth arall rydych wedi'i rhoi am eich cwyn.

Bydd y Comisiynydd yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol i ymchwilio i'ch cwyn. Mae'r Comisiynydd yn casglu ac yn cyhoeddi ystadegau sy'n dangos gwybodaeth fel nifer y cwynion a dderbyniwyd yn ei adroddiad blynyddol, ond nid ar ffurf sy'n adnabod unrhyw un.

Nid oes gan unrhyw drydydd parti fynediad i'ch gwybodaeth bersonol oni bai bod y gyfraith yn caniatáu iddynt wneud hynny. Fodd bynnag, weithiau gallai fod angen i'r Comisiynydd roi eich gwybodaeth i unigolyn arall, er enghraifft ymgynghorydd annibynnol. Lle caiff gwybodaeth ei datgelu, gwneir hynny'n unol â gofynion y Mesur neu er budd cyfiawnder naturiol.

Os ydych yn gweithredu ar ran rhywun sy'n gwneud cwyn, fe allai'r Comisiynydd ofyn am wybodaeth i'w bodloni o'ch hunaniaeth ac, os yw'n berthnasol, gofyn am wybodaeth i ddangos bod gennych awdurdod i weithredu ar ran rhywun arall.

Mae gan y Comisiynydd amserlen cadw sy'n nodi pa mor hir y cedwir gwybodaeth bersonol.

Mae'r Comisiynydd yn gweithredu yn ei gapasiti swyddogol i ymchwilio i'ch cwyn, felly mae gennych hawl i wrthwynebu iddo brosesu eich data personol. Mae yna resymau dilys pam y gall wrthod eich gwrthwynebiad, sy'n dibynnu ar pam ei fod yn ei brosesu.

Nid yw'r Comisiynydd yn defnyddio unrhyw broseswyr data.

**Gwneud ymholiad**

Pan fyddwch yn cysylltu â'r Comisiynydd gydag ymholiad, cesglir gwybodaeth gan gynnwys eich data personol er mwyn ymateb iddo a chyflawni ei swyddogaethau statudol.

Y sail gyfreithiol y mae'r Comisiynydd yn dibynnu arni i brosesu'ch data personol yw Erthygl 6(1)(e) o GDPR y DU, sy'n caniatáu iddi brosesu data personol pan fydd angen gwneud hynny i gyflawni tasgau cyhoeddus.

Os yw'r wybodaeth y byddwch yn ei darparu ynglŷn â'ch cwyn yn cynnwys data categori arbennig, megis gwybodaeth iechyd, grefyddol neu ethnig, y sail bydd y Comisiynydd yn dibynnu arni er mwyn ei phrosesu yw Erthygl 9(2)(g) o GDPR y DU, sydd hefyd yn ymwneud â'i thasg cyhoeddus a diogelu eich hawliau sylfaenol, ac Atodlen 1 rhan 2(6) o Ddeddf Diogelu Data 2018 sy'n ymwneud â dibenion statudol a llywodraethol.

Mae angen ichi ddarparu digon o wybodaeth i'r Comisiynydd er mwyn medru ystyried ac ateb eich ymholiad. Os byddwch yn ffonio'r Comisiynydd, ni wneir recordiad sain ohono ond gellir cymryd gwybodaeth bersonol er mwyn darparu gwasanaeth bellach i chi yn ôl yr angen.

Os byddwch chi'n cysylltu â'r Comisiynydd trwy e-bost neu'r post, bydd angen cyfeiriad dychwelyd ar gyfer blaenu ymateb y Comisiynydd.

Bydd y Comisiynydd yn cadw copi o'ch ymholiad ac hefyd gofnod o'r ymateb ddarperir gan y Comisiynydd. Mae'r Comisiynydd yn defnyddio'r wybodaeth a

ddarperir i ddelio â'r ymholiad ac unrhyw faterion dilynol a allai godi yn sgil yr ymholiad.

Mae gan y Comisiynydd amserlen cadw sy'n nodi pa mor hir y cedwir data personol.

Mae'r Comisiynydd yn gweithredu yn ei chapasiti swyddogol i ymchwilio i'ch ymholiad, felly mae gennych hawl i wrthwynebu i'r Comisiynydd brosesu eich data personol. Mae yna resymau dilys pam y gall wrthod eich gwrthwynebiad, sy'n dibynnu ar pam ei fod yn ei brosesu.

Nid yw'r Comisiynydd yn defnyddio unrhyw broseswyr data.

**Ceisio am swydd neu secondiad**

Diben y Comisiynydd ar gyfer prosesu'r wybodaeth ddarperir yw asesu eich addasrwydd ar gyfer rôl rydych chi wedi gwneud cais amdani.

Y sail gyfreithiol y mae'r Comisiynydd yn dibynnu arni at gyfer prosesu eich data personol yw Erthygl 6(1)(b) o GDPR y DU, sy'n ymwneud â phrosesu sy'n angenrheidiol i gyflawni cytundeb neu i gymryd camau ar eich cais, cyn ymrwymo i gytundeb.

Os ydych chi'n darparu unrhyw wybodaeth am addasiadau rhesymol sydd eu hangen arnoch o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, y sail gyfreithiol y mae'r Comisiynydd yn dibynnu arni ar gyfer prosesu'r wybodaeth hon yw Erthygl 6(1)(c) i gydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol o dan y Ddeddf Diogelu Data.

Y sail gyfreithiol y mae'r Comisiynydd yn dibynnu arni i brosesu unrhyw wybodaeth rydych chi'n ei darparu fel rhan o'ch cais sy'n ddata categori arbennig, fel gwybodaeth iechyd, grefyddol neu ethnigrwydd, yw Erthygl 9(2)(b) o GDPR y DU, sy'n ymwneud â'i rhwymedigaethau mewn cyflogaeth a diogelu eich hawliau sylfaenol, ac Atodlen 1, rhan 1(1) o Ddeddf Diogelu Data 2018 sydd eto'n ymwneud â phrosesu at ddibenion cyflogaeth, asesu'ch gallu i weithio a meddygaeth ataliol neu alwedigaethol.

Mae’r Comisiynydd yn prosesu gwybodaeth am euogfarnau troseddol a throseddau ymgeiswyr. Y sail gyfreithiol y mae’n dibynnu arno i brosesu’r data hwn yw Erthygl 6(1)(e) ar gyfer cyflawni ei dasg gyhoeddus. Yn ogystal, mae’n dibynnu ar yr amod prosesu yn Atodlen 1 rhan 2 paragraff 6(2)(a).

Mae’r Comisiynydd yn defnyddio’r holl wybodaeth rydych chi’n ei darparu yn ystod y broses recriwtio i symud eich cais ymlaen gyda’r bwriad o gynnig cytundeb cyflogaeth i chi, neu i gyflawni gofynion cyfreithiol neu reoleiddiol os oes angen.

Ni fydd y Comisiynydd yn rhannu unrhyw ran o’r wybodaeth rydych chi’n ei darparu ag unrhyw drydydd parti at ddibenion marchnata.

Bydd y Comisiynydd yn defnyddio’r manylion cyswllt a rowch i gysylltu â chi i symud ymlaen â’ch cais. Defnyddir y wybodaeth arall a rowch i asesu eich addasrwydd ar gyfer y rôl.

Nid yw’r Comisiynydd yn casglu mwy o wybodaeth na sydd ei angen i gyflawni’r dibenion datganedig ac ni fydd yn ei chadw’n hirach nag y mae angen.

Defnyddir y wybodaeth y gofynnir amdano i asesu eich addasrwydd ar gyfer cyflogaeth. Nid oes rhaid i chi ddarparu’r hyn y gofynnir amdano ond gallai effeithio ar eich cais os na wnewch chi hynny.

Rydym yn gofyn ichi gynnwys manylion personol gan gynnwys eich enw a’ch manylion cyswllt. Byddwn hefyd yn gofyn am fanylion unrhyw brofiad blaenorol, addysg, canolwyr ac am atebion i gwestiynau sydd yn berthnasol i’r swydd ymgeisir amdani. Bydd staff adnoddau dynol y Comisiynydd yn gweld yr holl wybodaeth gyflwynir fel rhan o’r cais.

Gofynnir i chi hefyd ddarparu gwybodaeth cyfle cyfartal. Nid yw hyn yn orfodol – os na fyddwch yn ei ddarparu, ni fydd yn effeithio ar eich cais. Ni fydd y Comisiynydd yn rhoi’r wybodaeth ar gael mewn ffordd a all eich adnabod chi. Bydd unrhyw wybodaeth a rowch yn cael ei defnyddio i gynhyrchu a monitro ystadegau cyfle cyfartal.

Os oes arbenigwr rheoli ymgeiswyr trydydd parti yn ran o’r broses ddethol yna bydd eich manylion personol yn cael eu rhannu gyda hwy.

Efallai y bydd y Comisiynydd yn gofyn ichi gwblhau profion ac i fynychu cyfweliad. Bydd gwybodaeth yn cael ei chynhyrchu gennych chi a'r Comisiynydd, er enghraifft, efallai y byddwch chi'n cwblhau prawf ysgrifenedig neu efallai y bydd y Comisiynydd yn cymryd nodiadau cyfweliad. Mae'r Comisiynydd yn cadw'r wybodaeth hon.

Os ydych yn aflwyddiannus ar ôl cael eich asesu ar gyfer y rôl, gall y Comisiynydd ofyn a hoffech i'ch manylion gael eu cadw mewn cronfa dalent. Os dymunwch cael eich cynnwys mewn cronfa o'r fath, byddai'r Comisiynydd yn cysylltu'n rhagweithiol â chi pe bai unrhyw swyddi gwag addas eraill yn codi. Bydd y Comisiynydd yn cadw gwybodaeth bersonol am ymgeiswyr aflwyddiannus am gyfnod o ddau fis fan bellaf ar ôl i'r broses recriwtio ddod i ben; wedi hynny caiff ei dinistrio neu ei dileu.

Os bydd y Comisiynydd gwneud cynnig amodol o gyflogaeth, bydd yn gofyn i chi am wybodaeth fel y gall gynnal gwiriadau cyn eich cyflogi. Rhaid i chi gwblhau gwiriadau cyn cyflogi yn llwyddiannus i symud ymlaen i gael cynnig terfynol. Rhaid i'r Comisiynydd gadarnhau hunaniaeth ei staff a'u hawl i weithio yn y Deyrnas Unedig, a cheisio sicrwydd ynghylch eu dibynadwyedd, eu gonestrwydd a'r gallu i ymddiried ynddynt.

Felly mae'n rhaid i chi ddarparu:

- Prawf o'ch hunaniaeth gyda dogfennau gwreiddiol; cymerir copïau
- Prawf o'ch cymwysterau gyda dogfennau gwreiddiol; cymerir copïau;
- Datganiad cofnodion troseddol i ddatgan unrhyw euogfarn heb ei disbyddu.

Cysylltir â chanolwyr yn uniongyrchol, gan ddefnyddio'r manylion a rowch yn eich cais.

Bydd y Comisiynydd hefyd yn gofyn ichi am unrhyw addasiadau rhesymol y gallai fod eu hangen arnoch o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Rhennir y wybodaeth yma gyda'r staff perthnasol i sicrhau bod y rhain ar waith ar gyfer pan fyddwch yn dechrau eich cyflogaeth gyda Chomisiynydd y Gymraeg.

Os bydd cynnig terfynol yn cael ei wneud, gofynnir am y wybodaeth ganlynol:

- Manylion banc – i brosesu taliadau cyflog misol
- Manylion cyswllt brys – fel bod y Comisiynydd yn gwybod â phwy i gysylltu rhag ofn y byddwch mewn sefyllfa o argyfwng yn y gwaith
- Unrhyw aelodaeth o gynllun pensiwn.

Os byddwch yn derbyn cynnig terfynol am swydd gyda Comisiynydd y Gymraeg, caiff rhai o'ch cofnodion personél eu cadw ar **Staffology**, sef system cofnodion adnoddau dynol sy'n cael ei defnyddio'n fewnol. Dyma ddolen i hysbysiad preifatrwydd Staffology: Privacy Policy | Staffology.

Yn yr un modd, rhoddir eich manylion i **MyCSP** sy'n gweinyddu Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil yr ydym yn aelod-sefydliad ynddo. Cewch eich ymrestru'n awtomatig yn y cynllun pensiwn, a'r manylion a roddir i MyCSP yw eich enw, eich dyddiad geni, eich rhif Yswiriant Gwladol a'ch cyflog. Ni fydd manylion eich cyfrif banc yn cael eu trosglwyddo i MyCSP ar yr adeg hon. Dyma ddolen i hysbysiad preifatrwydd MyCSP Privacy - Civil Service Pension Scheme.

Mae Cod Ymddygiad y Comisiynydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl staff ddatgan a oes ganddynt unrhyw wrthdaro buddiannau posibl. Cedwir y wybodaeth ar eich ffeil personél. Bydd angen i chi hefyd ddatgan unrhyw gyflogaeth eilaidd.

Fel unigolyn, mae gennych rai hawliau ynglŷn â'ch data personol eich hun.

**Swyddogion presennol a chyn-swyddogion**

Dylai swyddogion gyfeirio at yr hysbysiad preifatrwydd ar gyfer swyddogion. Pan ddaw'ch cyflogaeth gyda'r Comisiynydd i ben, bydd yn cadw gwybodaeth amdanoch yn unol â gofynion y polisi cadw a gwaredu gwybodaeth, ac yna'n ei ddileu.

**Mynychu digwyddiad, seminar neu weithdy**

Mae'r Comisiynydd yn casglu gwybodaeth er mwyn hwyluso'r digwyddiad a darparu gwasanaeth derbyniol i chi. Mae angen y wybodaeth hon hefyd i ymateb i chi.

Y sail gyfreithiol y mae'n dibynnu arni ar gyfer prosesu eich data personol yw eich cydsyniad o dan Erthygl 6(1)(a) o GDPR y DU. Pan fydd yn casglu unrhyw wybodaeth am ofynion dietegol neu fynediad, mae angen eich cydsyniad chi hefyd (o dan Erthygl 9(2)(a)) gan fod y math hwn o wybodaeth yn cael ei gyfri fel data categori arbennig.

Os ydych yn dymuno mynychu un o ddigwyddiadau'r Comisiynydd, gofynnir i chi ddarparu eich gwybodaeth cyswllt gan gynnwys enw eich sefydliad ac, os cynigir lle i chi, gwybodaeth am unrhyw ofynion dietegol neu ddarpariaethau mynediad y gallai fod eu hangen arnoch. Mi all y Comisiynydd ofyn am daliad os oes tal yn ofynnol i fod yn bresennol mewn digwyddiad.

Os na fyddwch yn llwyddiannus wrth sicrhau lle mewn digwyddiad, bydd y Comisiynydd yn rhoi gwybod i chi ac yn cadw eich manylion ar restr wrth gefn rhag ofn y daw lle ar gael cyn y digwyddiad.

Os byddwch yn cael lle mewn digwyddiad, bydd yn gofyn am wybodaeth am unrhyw ofynion dietegol / mynediad. Ni fydd y wybodaeth hon yn cael ei rhannu â'r lleoliad mewn unrhyw ffordd sy'n ei gwneud yn bosib eich adnabod, a bydd yn cael ei dileu ar ôl y digwyddiad.

Ni fydd y Comisiynydd yn cyhoeddi rhestrau o aelodau digwyddiadau.

Mae gan y Comisiynydd amserlen cadw sy'n nodi pa mor hir y cedwir data personol.

Mae'r Comisiynydd yn dibynnu ar eich cydsyniad i brosesu'r data personol a ddarperir gennych er mwyn hwyluso'r digwyddiad. Mae hyn yn golygu bod gennych yr hawl i dynnu'ch cydsyniad yn ôl ar unrhyw adeg. Os ydych chi am dynnu'ch cydsyniad yn ôl ar unrhyw adeg, e-bostiwch neu ffoniwch swyddfa'r Comisiynydd. Os gwnewch hynny, bydd y cofnodion yn cael eu diweddaru ar unwaith i adlewyrchu'ch dymuniadau.

O bryd i'w gilydd bydd y Comisiynydd yn defnyddio proseswyr data i helpu i hwyluso'r digwyddiadau. Os gwneir hynny, bydd manylion y proseswyr a ddefnyddir yn cael eu nodi gyda'r wybodaeth am y digwyddiad.

**Cofrestru ar gyfer gweminar neu ddigwyddiad sy'n cael ei ddarlledu'n fyw**

Mae'r Comisiynydd yn casglu'r wybodaeth hon er mwyn hwyluso'r gynhadledd fideo, gweminar neu'r digwyddiad darlledu byw a darparu mynediad ehangach i'w chynnwys.

Y sail gyfreithiol y mae'n dibynnu arni ar gyfer prosesu eich data personol yw Erthygl 6(1)(a) or GDPR.

Os ydych chi'n mynychu neu'n cyflwyno yn un o'r digwyddiadau hyn, byddwn angen cyfeiriad e-bost gennych chi. Bydd hyn er mwyn eich cofrestru ar gyfer y gweminar neu ddigwyddiad a darparu recordiad o'r gweminar ar ôl y digwyddiad.

Ni fydd y Comisiynydd yn cyhoeddi rhestrau o'r unigolion fydd yn mynychu'r gweminar neu ddigwyddiad sy'n cael ei ddarlledu yn fyw.

Mae rhai digwyddiadau'n cael eu recordio a bydd delwedd a sain pob cyflwynydd yn cael ei ddal yn y recordiad. Os ydych chi'n rhan o'r digwyddiad, efallai y bydd gennych y dewis i rannu'ch delwedd a'ch sain ai peidio. Os dewiswch eu rhannu, bydd hyn hefyd yn cael ei ddal yn y recordiad.

- Bydd rhai digwyddiadau yn cynnwys sesiwn holi-ac-ateb wedi'i chymedroli. Os dewiswch gymryd rhan yn y sesiwn holi-ac-ateb wedi'i chymedroli, efallai y bydd eich sylwadau yn cael eu cyhoeddi i eraill yn y digwyddiad a byddant hefyd yn rhan o'r recordiad.
- Os yw digwyddiad yn cael ei recordio, byddwch yn cael eich hysbysu ymlaen llaw o unrhyw recordiad bob amser.
- Bydd y Comisiynydd yn defnyddio'ch cyfeiriad e-bost i roi manylion y digwyddiad i chi. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth am unrhyw recordiad sy'n digwydd. Ar gyfer digwyddiadau wedi'u recordio bydd hefyd yn anfon dolen o'r recordiad atoch ar ôl i'r digwyddiad ddod i ben.

- Ar gyfer rhai digwyddiadau, gall y recordiad gael ei gyhoeddi ar wefan neu sianel YouTube y Comisiynydd fel ei fod yn hygyrch i gynulleidfa ehangach. Os yw recordiad o ddigwyddiad yn cael ei gyhoeddi, byddwch bob amser yn cael eich hysbysu ymlaen llaw.
- Ni fydd y Comisiynydd yn cyhoeddi rhestrau mynychwyr, ond efallai y bydd eich enw a'ch cyfeiriad e-bost yn weladwy i eraill sy'n bresennol yn ystod y digwyddiad.
- Mae gan y Comisiynydd amserlen cadw sy'n nodi pa mor hir cedwir data personol. Mae'r Comisiynydd yn defnyddio Zoom neu Microsoft Teams ar gyfer cyflwyno gweminarau a digwyddiadau wedi eu darlledu'n fyw.
- Mae'r Comisiynydd yn defnyddio YouTube i gyhoeddi recordiadau o rai digwyddiadau.

**Tanysgrifio i Gylchlythyr Comisiynydd y Gymraeg**

Diben y Comisiynydd wrth gasglu'r wybodaeth am danysgrifwyr i Gylchlythyr y Comisiynydd yw i ddarparu gwasanaeth i chi a rhoi gwybod am ddigwyddiadau sydd yn yr arfaeth ac am unrhyw newyddion y mae'r Comisiynydd am ei rannu gydag unigolyn neu sefydliadau sydd am dderbyn y cylchlythyr.

Y sail gyfreithiol y mae'r Comisiynydd yn dibynnu arni ar gyfer prosesu eich data personol yw Erthygl 6(1)(a) or GDPR.

Byddwn angen eich enw a'ch cyfeiriad e-bost er mwyn medru cysylltu gyda'r e-gylchlythyr y byddwn yn ei gyhoeddi.

Dim ond i ddarparu'r gwasanaeth e-gylchlythyr y byddwn yn defnyddio'ch manylion.

Mi fydd y Comisiynydd yn casglu ystadegau ynghylch agor negeseuon e-bost a chliciau gan ddefnyddio meddalwedd safonol y diwydiant, gan gynnwys 'gifs' clir i'n helpu i fonitro a gwella'n darpariaeth wrth ddarparu e-gylchlythyr.

Fe gewch neges e-bost i gadarnhau ar ôl i chi ddarparu'ch manylion, ac wedyn bydd yn cylchlythyr yn cael ei ddarparu yn rheolaidd.
Mae gan y Comisiynydd amserlen cadw sy'n nodi pa mor hir cedwir data personol.

Rydym yn dibynnu ar eich cydsyniad i brosesu'r data personol rych chi'n ei roi inni at ddibenion marchnata. Mae hyn yn golygu bod gennych chi hawl i dynnu'ch cydsyniad yn ôl, neu wrthwynebu'n gwaith i brosesu'ch data personol unrhyw bryd. Os gwnewch chi hynny, byddwn yn diweddaru'n cofnodion ar unwaith i gyd-fynd â'ch dymuniadau.

Rydym yn defnyddio **EmailBlaster** fel prosesydd data. EmailBlaster fydd yn dosbarthu'r e-gylchlythyr ar ran Comisiynydd y Gymraeg. I gael mwy o wybodaeth am EmailBlaster, gweler ei hysbysiad preifatrwydd yma Email Blaster Privacy Statement (emailblasteruk.com)

**Gwneud Cais am ein cyhoeddiadau a nwyddau marchnata 'Iaith Gwaith'**
Diben y Comisiynydd wrth gasglu'r wybodaeth hon yw cael postio'r cyhoeddiadau a'r deunyddiau marchnata y gofynnwyd amdanyn nhw.

Y sail gyfreithlon rydym yn dibynnu arni i brosesu'ch data personol yw erthygl 6(1)(a) o GDPR y Deyrnas Unedig.

Bydd angen i chi ddarparu eich enw, eich swydd a manylion eich cyfeiriad er mwyn medru cyflenwi'r nwyddau y gofynnir amdanynt.

Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth yma i gynhyrchu adroddiadau ystadegol ar y mathau a'r niferoedd o nwyddau y gofynnir amdanynt at ddibenion monitro, ond ni fydd y wybodaeth yma yn cynnwys unrhyw wybodaeth a all eich adnabod yn bersonol. Byddwn hefyd yn nodi enw y sefydliad sy'n gwneud y cais am y nwyddau penodol yma ac yn cynnal arolwg achlysurol at ddibenion adrodd ar gynnydd y sefydliad yn dilyn defnyddio'r nwyddau yma o fewn y gweithle.

Rydym yn dibynnu ar eich cydsyniad er mwyn prosesu'r data personol y byddwch yn ei roi inni, er mwyn darparu'r gwasanaeth hwn. Mae hyn yn golygu bod gennych hawl i dynnu'ch cydsyniad yn ôl unrhyw bryd. Os gwnewch chi hynny, byddwn yn diweddaru'n cofnodion ar unwaith i gyd-fynd â'ch dymuniadau.

Efallai bydd y Comisiynydd yn defnyddio proseswyr data neu sefydliadau trydydd parti i ddarparu'r gwasanaeth yma. Os gwneir hynny, hysbysiad preifatrwydd y sefydliadau hynny fydd yn berthnasol yn y sefyllfaoedd hynny a chaiff hynny ei nodi ganddynt ar y ffurflen gais am y nwyddau gofynnir amdanynt.

**Cychwyn neu ymyrryd mewn achosion cyfreithiol, neu darparu cymorth cyfreithiol i unigolyn**

- Y diben yw i gychwyn neu ymyrryd mewn achosion cyfreithiol, neu i ddarparu cymorth cyfreithiol, yn unol â dyletswyddau statudol y Comisiynydd. Y sail gyfreithiol mae'r Comisiynydd yn dibynnu arni i brosesu'ch data personol yw Erthygl 6(1)(e) o GDPR y DU, sy'n caniatáu iddi brosesu data personol pan fydd angen gwneud hynny i gyflawni ei thasg gyhoeddus fel rheoleiddiwr.
- Os yw'r wybodaeth y byddwch yn ei darparu yn cynnwys data categori arbennig, megis gwybodaeth iechyd, grefyddol neu ethnig, y sail bydd y Comisiynydd yn dibynnu arni er mwyn ei phrosesu yw Erthygl 9(2)(g) o GDPR y DU, sydd hefyd yn ymwneud â'i thasg cyhoeddus a diogelu'ch hawliau sylfaenol chi, ac Atodlen 1 rhan 2(6) o DDD 2018 sy'n ymwneud â dibenion statudol a llywodraethol.
- Os daw yn angenrheidiol defnyddio eich data sy'n ymwneud ag unrhyw euogfarnau troseddol, bydd y Comisiynydd yn gwneud hyn, mewn perthynas â'ch cais cyfreithiol, o dan ei swyddogaethau statudol ac yn unol ag Erthygl 10 o GDPR y DU a'r DDD 2018 Atodlen 1 rhan 3(33).

- Mae'r Comisiynydd angen gwybodaeth gennych chi er mwyn ystyried cychwyn neu ymyrryd mewn achosion cyfreithiol, neu ddarparu cymorth cyfreithiol i chi.
- Nid oes gan unrhyw drydydd parti fynediad i'ch gwybodaeth bersonol oni bai bod y gyfraith yn caniatáu hynny. Fodd bynnag, weithiau gallai fod angen rhoi eich gwybodaeth i rywun arall, er enghraifft cyfreithwyr y Comisiynydd. Pan fydd eich gwybodaeth yn cael ei datgelu, bydd hynny'n cael ei wneud yn unol â gofynion y Mesur neu er budd cyfiawnder naturiol.
- Mae gan y Comisiynydd bolisi cadw a gwaredu gwybodaeth sy'n nodi pa mor hir y cedwir gwybodaeth bersonol.
- Mae'r Comisiynydd yn gweithredu yn ei chapasiti swyddogol wrth ystyried cychwyn neu ymyrryd mewn achosion cyfreithiol, neu ddarparu cymorth cyfreithiol, felly mae gennych hawl i wrthwynebu iddo brosesu eich data personol. Mae yna resymau dilys pam y gall wrthod eich gwrthwynebiad, sy'n dibynnu ar pam ei bod yn ei brosesu.

**Cais am Wybodaeth**

- Diben y Comisiynydd ar gyfer prosesu eich data personol yw er mwyn iddi allu cyflawni'ch cais iddi am wybodaeth.
- Y sail gyfreithiol ar gyfer hyn yw Erthygl 6(1)(c) o GDPR y DU, sy'n ymwneud â phrosesu sy'n angenrheidiol i gydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol y mae'r Comisiynydd yn ddarostyngedig iddi.
- Os yw unrhyw ran o'r wybodaeth a rowch mewn perthynas â chais am wybodaeth yn cynnwys data categori arbennig, megis gwybodaeth iechyd, grefyddol neu ethnig, y sail bydd y Comisiynydd yn dibynnu arni i'w phrosesu yw Erthygl 9(2)(g) o GDPR y DU, sydd hefyd yn ymwneud â'i thasg cyhoeddus a diogelu'ch hawliau sylfaenol, ac Atodlen 1 rhan 2 (6) o DDD 2018 sy'n ymwneud â dibenion statudol a llywodraethol.
- Mae'r Comisiynydd angen gwybodaeth gennych er mwyn ymateb i chi ac i ddod o hyd i'r wybodaeth rydych chi'n chwilio amdani. Mae hyn yn ei galluogi

i gydymffurfio â'i rhwymedigaethau cyfreithiol o dan y ddeddfwriaeth y mae'n ddarostyngedig iddi:

  - Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol y DU
  - Deddf Diogelu Data (2018)
  - Deddf Rhyddid Gwybodaeth (2000)
  - Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol (2004)
  - Rheoliadau Ailddefnyddio Gwybodaeth y Sector Gyhoeddus

- Pan fydd yn derbyn cais gennych chi, bydd ffeil electronig yn cynnwys manylion eich cais yn cael ei hagor. Bydd hyn fel arfer yn cynnwys eich manylion cyswllt ac unrhyw wybodaeth arall rydych wedi'i rhoi i'r Comisiynydd. Bydd copi o'r wybodaeth sy'n cwympo o fewn sgôp eich cais hefyd yn cael ei chadw yn y ffeil.
- Os ydych yn gwneud cais am eich data personol, neu'n gweithredu ar ran rhywun sy'n dymuno gwneud cais o'r fath, fe allai'r Comisiynydd ofyn am wybodaeth i'w fodloni o'ch hunaniaeth ac, os yw'n berthnasol, gofyn am wybodaeth i ddangos bod gennych awdurdod i weithredu ar ran rhywun arall.
- Os ydych yn gwneud cais am eich data personol, neu'n gweithredu ar ran rhywun sy'n dymuno gwneud cais o'r fath, fe allai'r Comisiynydd ofyn am wybodaeth i'w fodloni o'ch hunaniaeth ac, os yw'n berthnasol, gofyn am wybodaeth i ddangos bod gennych awdurdod i weithredu ar ran rhywun arall.
- Cyn cysylltu â'r Comisiynydd dylech ddeall bod gofyn i'r Comisiynydd, dan adran 22 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, drin fel pe bai'n gyfrinachol unrhyw wybodaeth y mae'n ei chael mewn cysylltiad â'i swyddogaethau. Ni fydd unrhyw wybodaeth o'r fath y byddwch yn ei darparu yn cael ei rhannu ag unrhyw un arall oni bai fod adran 22 yn awdurdodi hynny. Dylech fodd bynnag ddeall y gall fod yn angenrheidiol, mewn amgylchiadau eithriadol, i'r Comisiynydd ddatgelu'r wybodaeth hon i eraill; ond os bydd hyn yn

angenrheidiol at unrhyw ddiben, fel arfer fe ofynnir i chi ynghylch hyn yn gyntaf.

- Nid yw adran 22 yn effeithio mewn unrhyw ffordd ar ddyletswyddau'r Comisiynydd dan gyfraith diogelu data na chyfraith cyfrinachedd. Am ragor o wybodaeth am adran 22, cysylltwch â'r Comisiynydd.
- Mae gan y Comisiynydd amserlen cadw sy'n nodi pa mor hir y cedwir data personol. Nid yw'r Comisiynydd yn defnyddio unrhyw broseswyr data. Mi all y Comisiynydd ddefnyddio trydydd parti fel prosesydd data i gynnal ein harolygon boddhad cwsmeriaid a bydd enw a dolen i hysbysiad preifatrwydd y trydydd parti yn cael ei nodi pan wneir hyn.

**Rhestr o enwau lleoedd safonol Cymru**

- Diben y Comisiynydd ar gyfer prosesu eich data personol yw gallu cyflawni ei gyfrifoldeb i gynnig cyngor ar ffurfiau safonol enwau lleoedd Cymru.
- Y sail gyfreithiol y mae'n dibynnu arni i brosesu eich data personol yw Erthygl 6(1)(e) – tasg gyhoeddus.
- Mae'r Comisiynydd yn dilyn canllawiau penodol wrth lunio'i hargymhellion ac yn rhoi sylw dyladwy i dystiolaeth ynghylch defnydd cyfredol a hanesyddol, yn ogystal â barn y cyhoedd ar yr enwau. Gall manylion personol ffurfio rhan ganolog o'r dystiolaeth ddogfennol hon, a gall y Comisiynydd weithiau ddymuno cofnodi barn unigolion a thystiolaeth a gyflwynir ganddynt ynghylch amrywiol ffurfiau er mwyn cynorthwyo â llunio argymhellion.
- Bydd y dystiolaeth hon yn cael ei chadw tan ddiwedd y prosiect oni bai fod cais penodol yn cael ei wneud gan unigolyn iddo gael ei wneud yn ddienw neu ei ddileu.

**Rhannu eich profiadau o ddelio gyda'r Comisiynydd er mwyn bod yn rhan o ymgyrch codi ymwybyddiaeth**

- Mae'r Comisiynydd yn casglu eich data personol er mwyn:

    - cysylltu gyda chi i dderbyn eich barn am weithredoedd y Comisiynydd; ac/neu
    - cysylltu er mwyn gofyn a fuasech yn fodlon i ni ddefnyddio’ch barn fel rhan o ymgyrchoedd i godi ymwybyddiaeth am y Comisiynydd; ac/neu
    - cofnodi eich profiad o ddelio gyda’r Comisiynydd.
- Y sail gyfreithiol y mae’r Comisiynydd yn dibynnu arni ar gyfer prosesu eich data personol yn y modd uchod yw eich cydsyniad o dan Erthygl 6(1)(a) o GDPR y DU.
- Os bydd y Comisiynydd yn casglu data categori arbennig gennych fel rhan o’r uchod, bydd angen eich cydsyniad penodo ar gyfer hyn (o dan Erthygl 9(2)(a)).
- Mae gan y Comisiynydd amserlen cadw sy’n nodi pa mor hir y cedwir data personol.
- Mae’r Comisiynydd yn dibynnu ar eich cydsyniad i brosesu’r data personol a rowch iddi er mwyn gallu dod i gyswllt gyda chi i dderbyn eich barn am weithredoedd y Comisiynydd, ac er mwyn cofnodi eich barn. Mae hyn yn golygu bod gennych yr hawl i dynnu’ch cydsyniad yn ôl ar unrhyw adeg. Os ydych chi am dynnu’ch cydsyniad yn ôl ar unrhyw adeg, e-bostiwch neu ffoniwch y Comisiynydd. Os gwnewch hynny, bydd y cofnodion yn cael eu diweddaru ar unwaith i adlewyrchu’ch dymuniadau.

**Cyfathrebu â'r Comisiynydd fel busnes neu elusen**

- Mae’r Comisiynydd yn dal enwau a manylion cyswllt unigolion sy’n gweithredu yn eu capasiti fel cynrychiolwyr eu sefydliadau fel busnesau neu elusennau. Mae’r sail gyfreithiol ar gyfer gwneud hynny yn ddibynnol ar natur y cyswllt:

    - Os yw’r cyswllt yn gysylltiedig â swyddogaethau rheoleiddiol y Comisiynydd, y sail gyfreithiol yw Erthygl 6(1)(e) GDPR y DU.

- Os yw'r cyswllt yn ymwneud â derbyn cefnogaeth gan y Comisiynydd at ddibenion hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg fel busnes neu elusen, y sail gyfreithiol yw Erthygl 6(1)(a) GDPR y DU. Wrth gwblhau asesiad ar gyfer creu Cynllun Datblygu'r Gymraeg, byddwn yn gofyn i chi am eich cydsyniad i rannu enwau a manylion cyswllt gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol at ddibenion gallu cysylltu â chi gyda gwybodaeth am gyrsiau a chymorth posib sydd o ddiddordeb i'ch sefydliad.

- Os yw'r cyswllt yn ymwneud â darparwyr, contractau, rheoli adeiladau, gwasanaethau TG ayb, y sail gyfreithiol yw Erthygl 6(1)(c) GDPR y DU ar gyfer unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol neu Erthygl 6(1)(f) oherwydd bod y prosesu o fewn buddiant dilys y Comisiynydd fel awdurdod cyhoeddus.

- Fel awdurdod sy'n contractio, mae'r Comisiynydd yn defnyddio gwefan GwerthwchiGymru. Mae Hysbysiad Preifatrwydd ar gael ar wefan GwerthwchiGymru.

**Adborth am wasanaeth Comisiynydd y Gymraeg**

Yn dilyn cyflwyno cwyn i Gomisiynydd y Gymraeg, efallai y byddwn yn cysylltu a chi i geisio adborth am wasanaethau'r Comisiynydd fel rhan o ymchwiliad boddhad cwsmeriaid. Gall hyn gynnwys, er enghraifft, gwahoddiad i gwblhau arolwg ar-lein neu ymateb i gwestiynau dros y ffôn. Gallwn hefyd drefnu grwpiau ffocws i ganfod barn pobl am wasanaethau Comisiynydd y Gymraeg.

Nid oes rhaid i chi gymryd rhan mewn cynnig adborth, ond bydd eich barn am y gwasanaethau yn fodd o wella datblygu gwasanaethau a gyflwynir gan Gomisiynydd y Gymraeg ac yn fodd o gyflawni ei dyletswyddau statudol a deddfwriaethol.

Bydd y wybodaeth a gyflwynir yn cael ei chyflwyno yn anhysbys, a ni bydd y staff wnaeth ymdrin a'ch cwyn yn gweld eich adborth. Dim ond y staff sydd yn ymdrin â'r ymchwil boddhad cwsmeriaid fydd yn gweld y data a'r wybodaeth a gyflwynir. Ar adegau, efallai y byddwn yn cysylltu â chi i ofyn eich caniatâd er mwyn cyhoeddi eich adborth neu sylwadau. Dim ond os ydych wedi rhoi caniatâd y byddwn yn cyhoeddi eich adborth.

Efallai y bydd y Comisiynydd yn gofyn i drydydd parti wneud arolwg o'r ymchwil boddhad cwsmeriaid yma ar ran y Comisiynydd. Pan wneir hyn, bydd angen i ni rannu gwybodaeth amdanoch gyda'r trydydd parti, gan gyfyngu'r wybodaeth fel a ganlyn:

- Eich enw a theitl;
- Eich manylion cyswllt;
- Unrhyw anghenion mynediad ychwanegol;
- Eich dewis iaith ar gyfer cyfathrebu;
- Gwybodaeth gyffredinol am eich cwyn i Gomisiynydd y Gymraeg;
- Pwnc cyffredinol eich cwyn (e.e cwyn am fethiant honedig i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg neu fethiant honedig i gydymffurfio â chynllun iaith sefydliad)
- Canlyniad cyffredinol eich cwyn (e.e. a wnaeth y Comisiynydd gadarnhau a derbyn eich cwyn neu beidio).

**Eich hawliau**

**Eich hawl i gwyno**

Os byddwch yn gofidio neu'n anhapus â'r ffordd rydym yn prosesu eich data personol unrhyw bryd, gallwch gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth – Cymru
Yr Ail Lawr, Tŷ Churchill
Ffordd Churchill
Caerdydd
CF10 2HH

Ffôn: 0330 414 6421

Ebost: wales@ico.org.uk

**Mynediad at eich gwybodaeth**

Mae gennych yr hawl i ofyn am gael gweld y wybodaeth a ddelir amdanoch. Cyfeirir at y math hwn o gais fel cais gwrthrych am wybodaeth, a dim ond gwybodaeth amdanoch chi eich hun, nid unrhyw un arall, y gallwch ofyn am gael ei gweld.

Er mwyn sicrhau mai dim ond i'r unigolyn dan sylw y caiff gwybodaeth ei rhoi, gallwn ofyn i chi gadarnhau pwy ydych wrth brosesu cais. Mae'n debygol y gofynnir i chi ddarparu copi o brawf adnabod â llun arno (pasbort neu drwydded yrru) a phrawf o gyfeiriad (bil cyfleustodau).

Byddwn yn ymateb i gais o'r fath o ymhen mis i'w dderbyn. Os na allwn ymateb o fewn yr amser hwn, byddwn yn rhoi gwybod i chi am yr oedi o fewn y mis a'r rhesymau drosto. Gellir ymestyn y cyfnod ymateb hyd at ddeufis, gan roi cyfanswm o dri mis ar gyfer ymateb i'r cais. Byddwn yn darparu'r wybodaeth yn electronig lle y bo'n bosibl.

Mewn rhai amgylchiadau, efallai na fydd yn bosibl i ni ymateb yn llawn i'ch cais:

Os oes gennym lawer iawn o wybodaeth sy'n berthnasol i'ch cais, i'r graddau y byddai'n ein hatal rhag ymateb i'r cais o fewn yr amserlen statudol, gallwn ofyn i chi ddiffinio natur y wybodaeth rydych am ei gweld. Er enghraifft, gellir gofyn i chi fireinio'r pwnc neu bennu amserlen ar gyfer y wybodaeth

Os ydym yn cadw'r wybodaeth at ddiben atal, canfod, erlyn neu ymchwilio i droseddau, efallai na allwch gael mynediad i'ch gwybodaeth. Gall hyn fod yn berthnasol, er enghraifft, pan ydym yn cadw gwybodaeth mewn perthynas â'n gwaith achos gorfodi neu pan fydd cyrff eraill sy'n gorfodi'r gyfraith yn rhannu gwybodaeth â ni.

**Cyfyngu a chywiro**

Mae gennych yr hawl i ofyn i ni ddiweddaru neu newid unrhyw wybodaeth sydd gennym amdanoch os tybiwch fod y wybodaeth honno yn anghywir, yn anghyflawn neu'n ddiangen. Gelwir hyn yn gywiro.

Gellir gosod cyfyngiadau ar waith prosesu tra bod cywirdeb neu gyflawnrwydd y wybodaeth yn cael eu gwirio neu os yw diben y gwaith prosesu yn cael ei bennu.

Wrth wneud cais o'r fath, rhaid i chi nodi'r sail neu'r rhesymau dros eich cais sy'n ymwneud â'ch amgylchiadau penodol. Byddwn yn ymateb i geisiadau oni fydd sail gyfreithiol gref dros ymgymryd â'r gwaith prosesu sy'n drech na buddiannau, hawliau a rhyddid gwrthrych y data neu'r broses o bennu, arfer neu amddiffyn hawliadau cyfreithiol.

Os ydym wedi rhannu eich data personol ag unrhyw drydydd partïon, byddwn yn hysbysu'r trydydd partïon hynny o'ch cais i gywiro'r data neu osod cyfyngiad ar y gwaith prosesu a'u cyfrifoldeb am wneud hynny.

**Gwrthwynebu a dileu**

Gallwch wrthwynebu'r gwaith o brosesu eich data personol. Mae'r hawl i wrthwynebu gwaith prosesu yn golygu y gallwch ofyn i ni roi'r gorau i brosesu eich data. Ni ellir gofyn i ni wneud hynny os yw'r wybodaeth yn cael ei phrosesu er mwyn cyflawni rhwymedigaeth gyfreithiol neu er mwyn atal, canfod, erlyn neu ymchwilio i droseddau.

Gallwch hefyd ofyn i ni ddileu unrhyw wybodaeth a ddelir gennym os tybiwch nad oes angen y wybodaeth honno mwyach neu fod y wybodaeth yn cael ei phrosesu'n anghyfreithlon.

Byddwn yn ymateb i unrhyw geisiadau i ddileu gwybodaeth neu wrthwynebu gwaith prosesu. Byddwn yn penderfynu ar bob cais yn ôl ei rinweddau ei hun.

**Beth i'w ddisgwyl os bydd toriad rheolau**

Mae torri rheolau yn cyfeirio at achosion lle caiff y data personol a brosesir gennym eu dinistrio, eu colli, eu newid neu eu datgelu heb awdurdod neu lle y ceir mynediad heb awdurdod i'r data hynny.

Os digwydd hyn, byddwn yn penderfynu a oes angen hysbysu Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Bydd y penderfyniad hwn yn seiliedig ar ba mor debygol ydyw y bydd yr achos hwnnw yn cael effaith negyddol ar yr unigolion y mae'r wybodaeth yn ymwneud â nhw, gan ystyried unrhyw niwed cyfreithiol, niwed ariannol neu niwed i enw da.

Os tybiwn fod angen hysbysu Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, yna byddwn yn gwneud hynny o fewn 72 awr, neu cyn gynted â phosibl.

Mewn amgylchiadau eithriadol, lle ystyrir bod achos o dorri rheolau yn peri risg uchel i hawliau a rhyddid unigolion, byddwn hefyd yn hysbysu'r unigolion hynny.